## P-05-897 Rhwystrwch Ddatblygwyr rhag gosod rhwydi yn y gwrychoedd a'r coed

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Chris Evans, ar ôl casglu cyfanswm o 1,508 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Gwnewch hi'n drosedd i osod rhwydi yn y gwrychoedd a'r coed i atal adar rhag nythu.

Mae datblygwyr, ac eraill sydd â diddordeb, yn osgoi cyfreithiau sy'n diogelu adar drwy osod rhwydi yn y gwrychoedd a'r coed i atal adar rhag nythu.

Mae hyn yn dadwreiddio gwrychoedd a choed sydd o gymorth i fioamrywiaeth ac sy'n darparu'r unig safleoedd nythu sydd ar ôl i adar y mae eu niferoedd yn dirywio'n gyflym.

Mae gosod rhwydi yn y gwrychoedd a'r coed yn bygwth rhywogaethau o adar sydd ar drai, yn creu perygl o gaethiwo bywyd gwyllt, ac yn creu llawer iawn o wastraff plastig.

Mae'r arfer hefyd yn torri deddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol a basiwyd gan y Senedd eisoes.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gŵyr
- Gorllewin De Cymru